# YR ATODLENNI

## ATODLEN 5

Erthygl 22

## ER MWYN DIOGELU DŵR CYMRU CYFYNGEDIG

**1.** Er mwyn diogelu Dŵr Cymru Cyfyngedig ("y Cwmni"), onid oes cytundeb ysgrifenedig gwahanol rhwng yr ymgymerwr â'r Cwmni, mae'r darpariaethau a ganlyn yn cael eu heffaith mewn perthynas â gwneud y gweithfeydd awdurdodedig neu ag arfer unrhyw bwerau eraill a roddir gan y Gorchymyn hwn.

**2.** Yn yr Atodlen hon—

mae "mewn" ("*in*"), mewn cyd-destun sy'n cyfeirio at gyfarpar neu gyfarpar amgen mewn tir, yn cynnwys cyfeiriad at gyfarpar neu gyfarpar amgen sydd uwchben tir, oddi tano neu arno;

ystyr "Deddf 1991" ("*the 1991 Act*") yw Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991;

ystyr "gwaith" ("*work*") yw unrhyw un neu ragor o'r gweithfeydd awdurdodedig;

ystyr "pibell berthnasol" ("*relevant pipe*") yw:

(a) unrhyw brif bibellau, pibellau neu gyfarpar arall sy'n perthyn i'r Cwmni neu'n cael eu cynnal a'u cadw ganddo at ddibenion cyflenwi dŵr; a

(b) unrhyw draen neu weithfeydd a freiniwyd yn y Cwmni o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**1**); ac

(c) unrhyw garthffos sydd wedi ei breinio felly neu sy'n ddarostyngedig i hysbysiad o fwriad i fabwysiadu a roddwyd o dan adran 102(4) o'r Ddeddf honno neu i Gytundeb i fabwysiadu a wnaed o dan adran 104 o'r Ddeddf honno, gan gynnwys prif bibell laid, prif bibell waredu (o fewn ystyr adran 219 o'r Ddeddf honno) neu arllwysfa garthffosiaeth ac unrhyw dyllau archwilio, siafftiau awyru, pympiau neu ategolion eraill sy'n ffurfio rhan o unrhyw garthffos, traen neu weithfeydd, ac mae'n cynnwys unrhyw strwythur lle mae pibell berthnasol wedi'i gosod neu i'w gosod, neu sy'n rhoi mynediad at y bibell berthnasol neu a fydd yn gwneud hynny; ac

mae "swyddogaethau" ("*functions*") yn cynnwys pwerau a dyletswyddau.

**3.** Nid yw'r Atodlen hon yn gymwys i gyfarpar y rheoleiddir y berthynas rhwng yr ymgymerwr a'r Cwmni mewn perthynas ag ef gan ddarpariaethau Rhan 3 o Ddeddf 1991.

**4.** Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn yn awdurdodi'r ymgymerwr i godi pibell berthnasol, na'i suddo nac i altro ei safle mewn modd arall, nac i ymyrryd â hi mewn unrhyw ffordd, heb gydsyniad ysgrifenedig y Cwmni, a rhaid peidio â dal y cydsyniad hwnnw'n ôl yn afresymol.

**5.** Cyn cychwyn adeiladu, altro neu ailadeiladu unrhyw waith a fydd neu a ddichon fod wedi ei leoli uwchben neu o fewn 15 o fetrau a fesurir mewn unrhyw gyfeiriad o bibell berthnasol neu'n gosod unrhyw lwyth (ble bynnag y'i lleolir) yn union ar bibell berthnasol rhaid i'r ymgymerwr roi i'r Cwmni y fath blaniau priodol a digonol o'r gwaith ag a ddichon fod yn rhesymol ofynnol gan y Cwmni a rhaid iddo beidio â chychwyn ar y gwaith hyd nes bydd y fath blaniau ohono wedi eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Cwmni (ac nid atelir y cyfryw gymeradwyaeth yn afresymol) neu wedi eu setlo drwy gymrodeddu o dan erthygl 26.

(**1**) 1991 p.56.

**6.** Os nad yw'r Cwmni, o fewn 56 diwrnod i'r diwrnod y rhoddir planiau i'r Cwmni o dan baragraff 5, yn mynegi ei anghymeradwyaeth a seiliau ei anghymeradwyaeth yn ysgrifenedig bernir bod y Cwmni wedi cymeradwyo'r planiau fel y'u rhoddwyd iddo.

**7.** Fel amod i'w gymeradwyaeth o'r planiau a grybwyllwyd caiff y Cwmni ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw newidiadau o'r fath ag a ddichon fod yn rhesymol angenrheidiol yn cael eu gwneud er mwyn diogelu pibell berthnasol rhag ymyrraeth neu berygl o ddifrod ac i sicrhau mynediad hwylus ati ac mai dim ond yn unol â'r planiau a gymeradwywyd yn unol â'r atodlen hon y caiff y gwaith ei wneud.

**8.** Ni fydd cymeradwyaeth y Cwmni o unrhyw blaniau o dan yr erthygl hon (yn absenoldeb esgeulustra ar ran y Cwmni) yn rhyddhau'r ymgymerwr o unrhyw atebolrwydd nac yn effeithio ar unrhyw hawliad am iawndal o dan yr atodlen hon.

**9.** Pan fo pibell berthnasol wedi ei lleoli mewn neu oddi tan dir sydd mewn perchnogaeth neu dan ddaliadaeth at ddibenion y rheilffyrdd ac nad yw'n cael ei symud ymaith neu ei gwyro rhaid i'r ymgymerwr, a hynny ar ei draul ei hun, gynnal a chadw pob cwlfert uwchben pibellau perthnasol o'r fath sy'n bod pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym fel bod modd cael at y bibell berthnasol honno at ddibenion gwaith trwsio.

**10.** Nid oes dim ym mharagraff 9 yn cael yr effaith o'i gwneud yn ofynnol i'r ymgymerwr wneud gweithfeydd cynnal a chadw mewn perthynas ag unrhyw gwlfert y mae'r Cwmni neu unrhyw berson arall yn atebol dros ei gynnal a'i gadw.

**11.** Rhaid i'r ymgymerwr roi cyfleusterau rhesymol i'r Cwmni i gario allan a gwneud pob gwaith a phob peth ag sydd yn rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i archwilio, trwsio, cynnal a chadw, adnewyddu, amnewid, symud ymaith, altro neu ddefnyddio pibell berthnasol ac yn benodol i wneud unrhyw weithfeydd amddiffynnol neu unrhyw waith gwyro sy'n angenrheidiol oherwydd arfer pwerau'r Gorchymyn hwn.

**12.**—(1) Pan fo'r ymgymerwr, yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon, yn rhoi at ddibenion y gweithfeydd penodedig, gyfleusterau a hawliau i'r Cwmni i adeiladu a chynnal a chadw cyfarpar amgen ar dir yr ymgymerwr i'w osod yn lle cyfarpar sydd i'w symud ymaith, fe roddir y cyfleusterau a'r hawliau hynny sy'n ddarostyngedig i baragraff 12(2) ar yr un telerau ac amodau â'r rheini sydd ynglŷn â'r cyfarpar y cymerwyd ei le, ac os cyfyd unrhyw anghydfod parthed y telerau a'r amodau hynny, fe gyfeirir yr anghydfod i'w gymrodeddu yn unol ag erthygl 26.

(2) Wrth setlo telerau ac amodau at ddibenion paragraff 12(1) mewn perthynas â'r cyfarpar amgen ar neu ar hyd unrhyw reilffordd yr ymgymerwr, rhaid i'r cymrodeddwr—

(a) roi eu heffaith i bob gofyniad rhesymol gan yr ymgymerwr ar gyfer sicrhau diogelwch y rheilffyrdd a'u gweithio'n effeithiol ac i wneud yn ddiogel unrhyw waith altro neu addasu dilynol ar y cyfarpar amgen ag a ddichon fod yn angenrheidiol i atal ymyrraeth ag unrhyw weithfeydd arfaethedig gan yr ymgymerwr neu â thraffig ar y rheilffyrdd; a

(b) i'r graddau y mae'n rhesymol ac yn ymarferol gwneud hynny dan amgylchiadau'r achos penodol, rhoi eu heffaith i'r telerau a'r amodau os oes rhai sy'n gymwys i'r cyfarpar a adeiladwyd ar neu ar hyd y rheilffyrdd y mae'r cyfarpar amgen i gael ei osod yn ei le.

**13.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau a ganlyn yn y paragraff hwn, rhaid i'r ymgymerwr ad-dalu i'r Cwmni y treuliau rhesymol a dducpwyd gan y Cwmni wrth archwilio, symud ymaith, altro neu amddiffyn unrhyw bibell berthnasol neu mewn cysylltiad â hynny, neu ag adeiladu unrhyw bibell berthnasol newydd y dichon fod ei hangen o ganlyniad i wneud unrhyw un neu ragor o'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Os gosodir, yn unol â darpariaethau'r Atodlen hon, gyfarpar sy'n dal mwy, neu sy'n fwy o faint, yn lle cyfarpar presennol llai neu sy'n llai o faint, ac os nad yw'r ymgymerwr yn cytuno i osod cyfarpar sy'n dal hynny neu sydd o'r maint hwnnw, yn ôl y digwydd, neu, yn niffyg cytundeb, nas

penderfynir ei fod yn angenrheidiol drwy gymrodedd yn unol ag erthygl 26, yna os yw gosod peth felly yn golygu cost wrth adeiladu gweithfeydd o dan yr Atodlen hon sy'n fwy na'r costau y byddid wedi eu dwyn petai'r cyfarpar a osodir yn dal yr un faint neu o'r un maintioli â'r offer presennol, yn ôl y digwydd, fe gwtogir y swm a fyddai ar wahân i'r paragraff hwn yn daladwy i'r Cwmni yn rhinwedd is-baragraff (1) o swm y gorfaint hwnnw.

(3) At ddibenion is-baragraff (2) ni thrinnir ymestyn cyfarpar fel ei fod yn hwy na hyd cyfarpar presennol fel gosod cyfarpar sy'n fwy na chyfarpar presennol.

(4) Fe gwtogir swm a fyddai ar wahân i'r is-baragraff hwn yn daladwy i'r Cwmni mewn perthynas â gweithfeydd yn rhinwedd is-baragraff (1), os yw'r gweithfeydd yn cynnwys gosod cyfarpar a ddarperir yn lle cyfarpar a osodwyd fwy nag 8 mlynedd ynghynt fel ei fod yn rhoi unrhyw fuddiant ariannol i'r Cwmni drwy yrru yn ôl amser adnewyddu'r cyfarpar yn ei gwrs arferol, o'r swm sy'n cynrychioli'r buddiant hwnnw.

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3), os oherwydd adeiladu unrhyw un neu ragor o'r gweithfeydd awdurdodedig, neu o ganlyniad i hynny, perir unrhyw ddifrod i unrhyw gyfarpar (ac eithrio cyfarpar nad yw'n rhesymol angenrheidiol ei drwsio oherwydd bwriad i'w symud ymaith at ddibenion y gweithfeydd hynny), neu i unrhyw eiddo perthynol i'r Cwmni, neu os oes unrhyw amhariad i unrhyw wasanaeth a ddarperir, neu i gyflenwi unrhyw nwyddau, gan y Cwmni, rhaid i'r ymgymerwr—

(a) dwyn a thalu'r gost a ddygir yn rhesymol gan y Cwmni wrth drwsio'r cyfryw ddifrod neu wrth adfer y cyflenwad; a

(b) rhoi iawndal rhesymol i'r Cwmni am unrhyw draul, colled, iawndal, cosb neu gostau eraill a ddygir gan y Cwmni, oherwydd neu o ganlyniad i unrhyw ddifrod neu amhariad o'r fath.

(2) Nid oes dim yn is-baragraff (1) yn gosod unrhyw atebolrwydd ar yr ymgymerwr mewn perthynas ag unrhyw ddifrod neu ymyriad i'r graddau y gellir ei dadogi ar weithred, esgeulustra neu ddiffyg gweithred o du'r Cwmni, ei swyddogion, ei wasanaethyddion, ei gontractwyr neu ei asiantyddion.

(3) Rhaid i'r Cwmni roi hysbysiad rhesymol i'r ymgymerwr o unrhyw hawliad neu orchymyn o'r fath ac ni chaniateir gwneud unrhyw setliad neu gyfaddawd heb gydsyniad yr ymgymerwr a fydd, os bydd yn dal yn ôl y cyfryw gydsyniad, â'r cyfrifoldeb unigol dros unrhyw setliad neu gyfaddawd neu unrhyw achos cyfreithiol sy'n angenrheidiol i wrthsefyll yr hawliad neu'r gorchymyn.

**15.** Nid oes dim yn yr Atodlen hon yn effeithio ar ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad neu gytundeb sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng yr ymgymerwr a'r Cwmni o ran unrhyw gyfarpar a osodir neu a godir ar yr hen reilffordd cyn dyddiad gwneud y Gorchymyn hwn.

**16.** Dyfernir ar unrhyw wahaniaeth a gyfyd rhwng yr ymgymerwr a'r Cwmni o dan yr erthygl hon (ac eithrio gwahaniaeth o ran ei ystyr neu ei ddehongliad) drwy gymrodeddu o dan erthygl 26.